Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 326 (Cymru) - 13 Gorffennaf 2022**

## Canfas blynyddol 2022: adnoddau

I gefnogi eich gwaith wrth gyflawni’r canfas blynyddol, rydym wedi cynhyrchu [cyfres o adnoddau wedi’u diweddaru] i chi eu defnyddio i hyrwyddo’r canfas yn eich ardal ac annog trigolion i gwblhau’r camau gofynnol.

Mae'r adnoddau'n cynnwys graffeg cyfryngau cymdeithasol, negeseuon templedi cyfryngau cymdeithasol, a templed datganiadau i'r wasg.

Mae’r graffeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn syml ac yn amlbwrpas, gydag eicon yn unig yn cynrychioli gwahanol gamau o'r canfas. Rydym hefyd wedi darparu negeseuon cyfryngau cymdeithasol templed i gyd-fynd â'r graffeg, fel y gallwch ddewis beth fydd yn gweithio orau i chi a'ch trigolion.

Mae'r datganiadau i'r wasg yn egluro beth yw'r canfas, sut mae'n cael ei gynnal eleni a beth sydd angen i drigolion ei wneud.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.electoralcommission.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2022

Y
Comisiwn
Etholiadol

## Cynnwys

**Canfas blynyddol 2022: adnoddau**

Gwybodaeth am dempledi datganiadau i'r wasg ac adnoddau cyfryngau cymdeithasol a dolen atynt ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael eu defnyddio i hyrwyddo'r canfas yn eu hardal.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [fan hyn]. Gallwch hefyd [danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.]**

**[Rhowch wybod i ni] am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â’r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommissio**

n.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddat-danysgrifio unrhyw bryd.